| Ymgynghoriad Llwybr **A – B** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Statws** | **Sylwadau** |
| James Margetson | Tŷ Ysgol, Coed Menai | Mae Mr James Margetson wedi cynhyrchu adroddiad fel ymateb i’r ymgynghoriad. Edrychwch ar atodiad rhif 8 i weld yr adroddiad. |
| Mark a Susan Margetson | Perchnogion Neuadd Treborth (hen ysgol) | Mae Mr a Mrs Margetson wedi cynhyrchu adroddiad fel ymateb i’r ymgynghoriad. Edrychwch ar atodiad 9 i weld yr adroddiad. |
| Thomas Gribben | 3 Tŷ Ysgol | • Mae Mr Gribben hefyd wedi cynhyrchu datganiad tyst defnyddiwr a gellir ei weld yn Atodiad 4.<br>• Mae ymateb y tirfeddiannwr yn disgrifio bod perchnogion presennol Neuadd Treborth wedi bod yn atal mynediad i gerddwyr a cherbydau.<br>• Dywed Mr Gribben fod ei gymdogion Brian a Rowena wedi bod yn breswylwyr drws nesaf i'r llwybr sy'n cael ei hawlio am 35 mlynedd, ers 1989.<br>• Mae llun Google Maps wedi'i gyflwyno yn dangos dim rhwystrau ar y brif lôn fynediad.<br>• Mae golygfa stryd arall Google Maps yn dangos nad oes giât yn bresennol ar y brif lôn fynediad wrth ymyl Treborth Mews.<br>• Cyflwynwyd ffotograff yn dangos arwyddion yn nodi 'Dim Mynediad Giatiau Gadael wedi'u Cloi' a 'Phreifat- Dim Mynediad Cyhoeddus na Hawl Tramwy'.<br>• Llun golygfa stryd Google Maps ychwanegol yn dangos twmpath cyflymder a dau bolyn y naill ochr wrth i'r lôn wyro i mewn i'r man parcio o flaen Neuadd Treborth.<br>• Fe wnaeth Mr Gribben anfon e-bost ymlaen oedd yn cynnwys datganiad gan Stephanie Boore, sy'n nodi, ei bod yn rhentu tir o gwmpas yr hen ysgol i gadw ei cheffylau a'i bod wedi bod yn reidio ei cheffyl yn rheolaidd heibio'r hen ysgol i ymuno â llwybr yr arfordir. Cafodd Ms Boore ei stopio ar 14/04/24 gan James Margetson a ddaeth o Neuadd Treborth a dweud wrthi na allai fynd drwodd gan nad oedd yn ei chytundeb prydles. Mae Ms Boore yn deall bod ganddi hawl yn ei chytundeb sy'n mynd o'r porth ger yr iard, ac y gall defnyddio'r ddwy lôn fel mynediad.<br>• Cyflwynwyd ffotograff yn dangos giât cae wedi'i galfaneiddio, a'i chlymu gyda rhaff ger Neuadd Treborth.<br>• Wedi'i gynnwys yn yr ymateb mae datganiad gan Mary Axford, oedd yn rhedeg y mudiad Riding For the Disabled o fis Awst 1981 tan fis Mawrth 2018. Mae Ms Axford yn datgan nad oedd unrhyw rwystrau ar y llwybr a bod ganddynt fynediad di-rwystr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cyflwynwyd log yr heddlu oedd yn datgan bod trafferth wrth agor y giât ac y bu galwad i'r heddlu ynghylch hyn gan ei fod yn rhwystro mynediad i fyny'r lon.<br>• Yn ogystal, mae datganiad gan safle gwersylla Wilson's.<br>• Mae Mr Gribben yn dweud bod yna giatiau ar y llwybr erbyn hyn, maent weithiau wedi cloi neu wedi eu clymu ynghau. Yn ogystal â'r giatiau mae nifer o arwyddion yn datgan dim mynediad.<br>• Cyflwynwyd datganiad gan Mr Braud, gyrrwr danfon DPD yn yr ardal am 8 mlynedd. Mae'r datganiad yn nodi i'r giatiau gael eu gosod yn dilyn prynu Neuadd Treborth, a bod yna giât nawr yn bresennol ger y Neuadd.<br>• Mae Mr Gribben wedi cynnwys datganiad gan John P Ernest, a rannodd eu profiadau o gerdded y llwybr dros y blynyddoedd gan eu bod yn berchen ar dŷ ger Treborth. Rhoddwyd gwybod iddynt bod yna lwybr sefydledig ar y lôn i Neuadd Treborth i'r Gerddi Botaneg.<br>• Roedd yr ymateb yn cynnwys datganiad arall, gan yrrwr danfon ASDA o'r enw Mr Stow, sydd hefyd yn mynegi'r anawsterau mynediad.<br>• Yn ymateb Mr Gribben mae wedi cynnwys cyfres o bum delwedd, mae pedwar ohonynt yn ddelweddau golygfa stryd Google Maps sy'n dangos bod y lôn fynediad yn arwain i Ysgol Treborth yn glir o giatiau.<br>• Mae un ddelwedd golygfa stryd Google a gyflwynwyd gan Mr Gribben yn dod i fis Mehefin 2011, nid oes unrhyw giatiau yn bresennol.<br>• Mae Mr Gribben wedi darparu datganiad o dystiolaeth gan Mathew Wills, Cyfarwyddwr Treborth Leisure Limited oedd yn cynnwys y cwrs ymarfer golff. Mae'r dystiolaeth yn datgan nad oes unrhyw rwystrau wedi bod yn bresennol ar y lôn ers i'w busnes gychwyn yn 1998.<br>• Mae ail ddatganiad o dystiolaeth a ddarparwyd gan Mr Gribben yn un gan Jane Boor. Mae tystiolaeth Jane Boor yn datgan ei bod wedi bod ynghlwm â Treborth Leisure Limited ers 1998. Rhwng 2015 a 2023, roedd Ms Boor yn gyfarwyddwr i'r cwmni. Yn ôl Ms Boor nid oedd unrhyw giatiau neu rwystrau ar y ffordd.<br>• Cafodd datganiad gan Mr Gethyn Owen, Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd ei anfon ymlaen gan Mr Gribben. Mae hwn yn datgan, ers i'r Neuadd gael ei gwerthu, bod ganddynt ond hawl tramwy i adeilad y clwb. Cafodd giatiau eu gosod yn 2019 a chânt eu cau'n rheolaidd.<br>• Mae Mr Gribben yn datgan na fu erioed rwystrau ers o leiaf 2003 pan ddaeth i Fangor.<br><br>• Mae Mr Gribben yn datgan bod giât wedi'i gosod wrth ymyl Treborth Mews (ar yr hawl tramwy gyhoeddus bresennol) yn 2014 gan Christy Security. Mae hefyd yn datgan, pan symudodd i'w gartref ym mis Awst 2015, nad oedd giât wrth ymyl Neuadd Treborth nac ychwaith ffens o amgylch y giât. Dim ond ffens o amgylch adeilad Neuadd Treborth ei hun oedd yno, ac nid ar y lôn gan fod angen mynediad i drigolion i lawr y lôn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Gosodwyd clo ar y giât wrth ymyl Treborth Mews a chlo ar y rhwystr melyn ar bont y rheilffordd. Mae Mr Gribben yn credu bod y rhwystr ar y lein reilffordd wedi'i osod yn y 1990au at ddiben cyfyngu ar gerbydau. Ni effeithiodd y rhwystr hwn ar ddefnydd cerddwyr yn ôl Mr Gribben.<br>• Mae Mr Gribben yn cadarnhau bod giât wrth ymyl Neuadd Treborth am ychydig fisoedd byr tua mis Chwefror 2015, yna cafodd ei thynnu. Yna cafodd ei adfer tua mis Mai/Mehefin 2022.<br>• Mae Mr Gribben wedi cynhyrchu llun sy'n dyddio o'r 30ain o Hydref 2023 yn dangos giât fetel wrth ymyl Neuadd Treborth.<br>• Mae Mr Gribben wedi derbyn datganiad gan Trystan Williams, mab Will Parry Williams, a oedd yn brifathro o 1973 i 1995. Dywed Mr Gribben fod y datganiad yn cadarnhau nad oedd unrhyw gyfyngiadau ar fynediad i gerddwyr erioed, a bod y llwybr gyferbyn â'r tai wedi'i fwriadu i geir allu gyrru drwyddo'n rhydd pan oedd bysiau neu blant y tu allan i adeilad yr ysgol. Yn ôl Mr Gribben mae'r datganiad hwn yn dangos mynediad am ddim i gerddwyr o 1973 i 2014, sef 41 mlynedd.<br><br>Mae Mr Gribben hefyd wedi roi ymlaen y datganiadau isod oddi wrth-<br><br>• Tudur Anwyl Williams<br>• Mary Axford<br>• Rowena Thomas<br>• Sion Owen Jones<br>• Trystan Williams<br>• Steph Boore<br>• Andreas Huws<br>• Brian Mollyneux<br>• Caroline Royal<br>• Lennard Jones<br>• John Grisdale<br>• Jane Boore<br>• Nigel Brown<br>• Gareth Vaughan Owen<br>• Mr T Gribben (his own statement) |
| Mr John Grisdale | Cyn Brifathro - | • Mae Mr Grisdale yn cydnabod bod y cyhoedd wedi bod yn cerdded drwy'r maes parcio o flaen yr ysgol gan ei fod yn llwybr haws i'w ddefnyddio na'r llwybr sy'n mynd tu ôl i'r coed. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Serch hyn, pan oedd Mr Grisdale yn dod ar draws pobl yn cerdded heibio byddai'n eu cyfeirio i ddefnyddio'r llwybr oedd tu ôl i'r coed ac i ffwrdd o'r ysgol a thai'r staff.<br>• Mae'r datganiad yn egluro hanes yr ysgol breswyl a'i fod yn cynnwys plant gydag ystod o anghenion addysgol a chymdeithasol arbennig. Oherwydd hyn, ffurfiodd cymuned glos rhwng Penrhosgarnedd, Treborth a Bangor ac roedd yr ysgol wedi anelu i wneud bywyd mor normal â phosib i'r plant. Wrth ddweud hyn, eglurodd Mr Grisdale y byddai'r ysgol yn croesawu pob cyfle i ymgysylltu â'r gymuned.<br>• Dros amser, newidiodd anghenion yr ysgol fel y gwnaeth ysgolion eraill drwy Wynedd, Ynys Môn a Chonwy. Yn ystod y 90au, addasodd yr ysgol i Ysgol Coed Menai, a oedd yn cynnig y dewis i blant o addysg breswyl yn yr wythnos a hefyd ysgol ddydd i ddisgyblion.<br>• Mae Mr Grisdale yn egluro y bu clwb nofio lleol oedd yn defnyddio pwll yr ysgol, a byddai clwb pêl-droed Penrhosgarnedd hefyd yn defnyddio caeau'r ysgol i hyfforddi a chwarae gemau. Fe wnaeth disgyblion yr ysgol hefyd sefydlu eu busnes coed tân eu hunain a byddai hynny'n denu cwsmeriaid i fyny i'r ysgol. Mae Mr Grisdale yn tanlinellu pwysigrwydd y gymuned i'r ysgol.<br>• Mae llythyr dyddiedig 11 Mehefin, 1999 gan Mr Grisdale ynglŷn a llwybr Beicio Cenedlaethol drwy dir yr ysgol i'w weld yn Atodiad 13. Yn ymateb Mr Grisdale pan gafodd ei gwestiynu ynghylch y llythyr hwn, yn gryno mae Mr Grisdale yn datgan y byddai adeiladu ffensys yn dasg rhy fawr a chostus, ac na chafodd hyn erioed ei wneud. Y prif reswm am osod ffensys oedd sicrhau nad oedd plant yn crwydro i ffwrdd o dir yr ysgol.<br>• Yr unig rwystr a osodwyd ar y llwybr sydd wedi'i hawlio oedd y rhwystr melyn ar y bont reilffordd, er mwyn stopio ceir rhag gyrru trwodd.<br>• Mae Mr Grisdale yn cadarnhau na wnaethant erioed stopio unrhyw un rhag cerdded drwodd, ac ni wnaethant osod unrhyw arwyddion chwaith. Yr unig arwydd a osodwyd gan Awdurdod Gwynedd oedd arwydd yn nodi lleoliad yr ysgol.<br>• Gofynnwyd i Mr Grisdale a oedd yn cofio'r arwyddion oedd yn dweud “Preifat’’ a “Ni chaniateir mynediad i Berson Anawdurdodedig drwy Orchymyn Awdurdod Addysg Sir Gaernarfon’’. Cadarnhaodd nad oedd erioed wedi gweld yr arwyddion hyn. Fe nododd Mr Grisdale fod Awdurdod Addysg Sir Gaernarfon wedi newid i Wynedd yn 1974.<br>• Mae llun a gyflwynwyd gan Mr Gribben yn dangos arwydd gyda symbol ac yn dweud 'Mynediad i Ysgol a Fferm Treborth yn Unig’ a chreda fod hyn yn profi'r hawliau mynediad dros y degawdau.<br>• Cynhyrchwyd fideo gan Mr Gribben yn dangos person yn cael ei herio am ddefnyddio'r llwybr. |
| Ms Rowena Thomas | 2 Tŷ Ysgol | • Mae Ms Thomas yn datgan ei bod wedi byw yn y cyfeiriad uchod ers 1989 ac yn yr amser hwn, nid yw Ms Thomas yn cofio unrhyw rwystrau na giatiau tan i'r ysgol gael ei gwerthu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae'r datganiad yn mynd yn ei flaen i egluro y gosodwyd giât dros dro gan gwmni diogelwch – roeddent wedi cael y goriadau i'r giât. Mae'r giât hon wedi'i lleoli wrth Treborth Mews.<br>• Mae Ms Thomas yn cadarnhau nad hi oedd yn rheoli'r rhwystr melyn, fodd bynnag, mae'n credu i berchnogion newydd Neuadd Treborth gymryd drosodd rheolaeth y rhwystr hwn. |
| Mr Brian Molyneaux | 2 Tŷ Ysgol | • Mae Mr Molyneux yn datgan ei fod yn preswylio yn y cyfeiriad uchod ers 25 mlynedd ac yn yr amser hwn nid oedd erioed wedi gweld rhwystrau'n bresennol cyn i ysgol Neuadd Treborth gael ei gwerthu.<br>• Flwyddyn ar ôl i'r ysgol gau roedd y cwmni diogelwch yn gofalu am yr adeiladau ac fe wnaethant osod giât dros dro ger Fferm Treborth ac fe roddwyd goriad iddynt. Fe wnaeth y cwmni diogelwch hefyd osod ffens ddiogelwch o amgylch adeilad yr ysgol. Eglurodd Mr Molyneux fod rhaid wedi torri i mewn i'r adeilad a dyma pam y cafodd ei wneud yn ddiogel gyda ffensys a giât ar y lôn.<br>• Dywed y datganiad hefyd fod cwmni diogelwch wedi gosod giât dros dro oedd yn cael ei chau rhwng 10.30/11pm a 6am. Cafodd y giatiau eu tynnu oddi yno beth amser wedyn, rhyw 12-18 mis yn ddiweddarach.<br>• Mae Mr Mollyneux yn cofio, o 1995, nad oedd unrhyw gatiau yn yr ysgol tan 2015. Roedd rhwystr ar ochr bellaf y bont reilffordd.<br>• Ar ôl i'r ysgol gael ei gwerthu, arhosodd y ffens ddiogelwch o amgylch yr ysgol yn ei lle, fodd bynnag, ni ddaeth y ffens allan ar y ffordd.<br>• Yn fuan ar ôl i'r ysgol gael ei gwerthu, rhoddodd y perchnogion newydd goriad i Mr Mollyneux ar gyfer y rhwystr ar y bont reilffordd. Tua'r adeg hon, gosododd y perchnogion newydd giât wrth ymyl Neuadd Treborth hefyd, ac mae Mr Molleyneux yn datgan bod y perchnogion newydd wedi gofyn iddo ei chadw ar gau a byddai ganddo gadwyn arni hefyd, fodd bynnag, nid oedd y giât hon wedi'i chloi.<br>• Hyd at atgof Mr Mollyneux, ymddangosodd y giât wrth ymyl Neuadd Treborth yn 2015 ac roedd yn ei lle am gyfnod byr ac yna cafodd ei hailosod yng nghanol 2022. Ar yr adeg hon, roedd rhywfaint o ffens o amgylch y giât. |
| Network Rail | Trac rheilffordd segur o dan y bont. | • Fe wnaeth Lucy Anderson, Rheolwr 'Liability Negotiations' – Rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr, gyflwyno sylwadau ar ran Network Rail.<br>• Yn ôl cofnodion Network Rail, fe adeiladwyd y bont reilffordd yn 1868 gan unigolyn preifat ac mewn cytundeb â Network Rail. Adeiladwyd y bont hon fel y byddai'r unigolyn dal yn gallu cael mynediad rhwng y ddwy ran o'i dir pan adeiladwyd y rheilffordd.<br>• Fel rhan o'r cytundeb hwn, byddai'r unigolyn yn gyfrifol am gynnal a chadw'r bont.<br>• Yn 1949, fe wnaeth Mr Davies perchennog yr Ystâd, werthu'r tiroedd deheuol a oedd yn cynnwys Neuadd Treborth i Gyngor Sir Gaernarfon. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gynnal y bont wedyn i Gyngor Sir Gaernarfon, sef Cyngor Gwynedd erbyn heddiw. |


| | | |
|---|---|---|
| | | • Yng nghofnodion Network Rail, nid oedd y bont yn gyhoeddus yn ei statws, fodd bynnag, mae Ms Anderson yn egluro nad yw'n afresymol tybio y byddai'r cyhoedd wedi cael caniatâd i gael mynediad dros y strwythur hwn, er bod hynny fel 'gwahoddedigion' y tirfeddiannwr. |
| James Hutchinson | Tŷ Ysgol, Coed Menai | • Mae Mr Hutchinson yn datgan ei fod ef a'i deulu wedi bod yn byw yn 4 Tŷ Ysgol, Coed Menai ers i'r eiddo gael eu gwerthu gan y Cyngor.<br>• Yn ei ddatganiad, mae'n sôn bod y giatiau ar glo yn gyson, a phan fydd yn gadael caiff y giatiau eu cloi tu ôl iddo o fewn munudau gan y teulu Margetson. Mae cloi'r giatiau wedi creu problemau gyda gyrwyr danfon parseli, gan fod y Margetsons yn honni nad oes ganddynt ganiatâd. |
| Mr Leonard Jones | Lodge / Porthdy Treborth | • Mae Mr Jones wedi byw yn y Porthdy (gelwir hefyd y 'Lodge') ers tua 1946/1948, pan mai yma oedd y fynedfa i ystâd Davies. Ar y pryd roedd Mr Jones yn 8 mlwydd oed ac roedd y Porthdy dal yn eiddo i'r teulu Davies.<br>• Mae datganiad Mr Jones yn dweud y bu ei lys-dad yn gyflogedig fel y garddwr i'r ystâd.<br>• Yn ystod y cyfnod hwn roedd yr ystâd yn ystâd breifat ac ni fyddai'r perchnogion wedi gadael i bobl gerdded trwodd. Yr unig lwybr troed y gellid ei ddefnyddio oedd y llwybr yn arwain i Dreborth Uchaf .<br>• Arferai fod yna giatiau ar y pileri mawr drws nesaf i'r Porthdy, ond fe dynnwyd y rhain tua'r amser y crëwyd y caeau chwarae, tua'r 1960au. Cafodd y giatiau eu gadael ar y gwair am gyfnod tan i rywun fynd â nhw i ffwrdd. Nid yw Mr Jones yn cofio a oedd y giatiau yma'n cael eu cloi.<br>• Yn ôl Mr Jones, nid oedd yr ystâd ar agor i'r cyhoedd tan y 1950au. Dyma pryd gafodd yr ystâd ei gwerthu mewn rhannau. Yn y cyfnod hwn, fe brynodd y brifysgol y gerddi.<br>• Agorodd yr ysgol yn 1950, pan oedd Mr Jones tua 12 mlwydd oed.<br>• Yn ôl Mr Jones, arferai gerdded heibio'r ysgol heb unrhyw broblemau, ac nid oedd y prifathro, Will Parry Williams, i weld yn meindio hyn.<br>• Dywed Mr Jones hefyd, ar adegau pan oedd yn fachgen, y byddai ei fam yn ei anfon ar y beic ar hyd y llwybr sy'n cael ei hawlio i lawr i Fferm Treborth i nôl llefrith ffres.<br>• Mae'r datganiad yn dweud cyn y 1960au doedd pobl ddim yn cerdded rhyw lawer wedyn. O'r 1960au ymlaen, daeth y llwybr sy'n cael ei hawlio yn fwy poblogaidd a byddai pobl yn ei ddefnyddio bob awr o'r dydd. Mae'n cael ei ystyried yn llwybr poblogaidd erbyn hyn.<br>• Cafodd y rhwystr melyn ger y bont reilffordd ei osod gan y brifysgol tua'r 1960au ac fe'i gosodwyd i atal ceir rhag gyrru ar y lôn i lawr i Ffordd Treborth. Weithiau roedd y rhwystr ar agor ac weithiau byddai wedi'i gloi. Roedd lle i bobl gerdded i ochr y rhwystr.<br>• Nid yw Mr Jones yn cofio unrhyw aelodau o staff yr ysgol yn ei herio am gerdded y llwybr sy'n cael ei hawlio. Yr unig berson sydd wedi herio Mr Jones yw perchennog presennol Neuadd Treborth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Pan oedd Mr Jones yn gweithio, doedd ganddo ddim llawer o amser i gerdded ar hyd y llwybr, dim ond ar brydiau. Byddai'n gwneud cylchdaith, gan gychwyn o'r Lodge, heibio'r ysgol a dilyn Ffordd Treborth i Dafarn yr Antelope.<br>• Mae ei ddatganiad yn nodi ei fod wedi bod yn cerdded yr hawl tramwy cyhoeddus honedig ers bron i 80 mlynedd.<br>• Sylwodd ar y rhwystr cyntaf yn 2019, pan osodwyd giatiau ac arwyddion ar y llwybr; Mae dwy giât wedi bod yn eu lle ers 2022.<br>• Rwyf wedi cael fy herio am gerdded y llwybr yn 2022 gan berchnogion Neuadd Treborth.<br>• Mae Mr Jones yn cofio cerdded ar y llwybr pan oedd ysgol Treborth ar agor gan y byddai'n ymweld â'i ffrindiau cyfagos.<br>• Gwneir cyfeiriadau hefyd at Glwb Pêl-droed Penrhosgarnedd a'r mudiad Riding for the Disabled a sut roedd yr ardal yn groesawgar ac yn rhan o'r gymuned.<br>• Dywed Mr Jones fod yr hen ysgol a Gerddi Botaneg Treborth yn arfer cynnal nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol.<br>• Mae ei ddatganiad yn cefnogi'r hawl tramwy cyhoeddus honedig ac mae'n gobeithio y bydd yr ymdeimlad o gymuned yn cael ei adfer unwaith eto. |
| Prifysgol Bangor | Perchnogion Gerddi Botaneg Treborth | • Mae'r Brifysgol yn ymwybodol bod y cyhoedd yn defnyddio'r llwybr sy'n cael ei hawlio. Mae nifer o'n hymwelwyr, cymdogion, staff, myfyrwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr wedi defnyddio'r llwybr hwn ers blynyddoedd naill ai fel taith gerdded gylchol neu i gael mynediad i/o'r A487.<br>• Ni chymerwyd unrhyw gamau gan y Brifysgol i atal neu geisio darbwyllo'r cyhoedd rhag cerdded y llwybr sy'n rhedeg trwy dir y Brifysgol.<br>• Nid yw'r Brifysgol wedi herio'r cyhoedd, wedi cloi'r giatiau, nac wedi gwneud unrhyw ymdrech arall i atal hawl tramwy cyhoeddus.<br>• Mae'r Ardd Fotaneg wedi bod ym meddiant y Brifysgol ers 1960 ac ers hynny byddai'r gerddi a'r coetiroedd wedi bod ar agor i'r cyhoedd.<br>• Mae'r Brifysgol wedi egluro bod giât yn dal i fod yn bresennol wrth y fynedfa i'r gerddi ac nid oes ganddynt unrhyw gofnod o bryd y gosodwyd y giât hon. Mae'r Brifysgol yn datgan nad yw'r giât yn cael ei chloi ond fe gaiff ei chau gyda'r nos am 11pm ac wedyn ei hailagor am 6am. Cyn 2017, roedd y giât yn cael ei chloi am 11pm gan gwmni diogelwch. Er bod y giât yn cael ei chloi dros nos, mae lle i ddefnyddwyr basio drwodd yn y bwlch sydd i'r chwith. Mae'r giât er mwyn atal mynediad i gerbydau ac nid cerddwyr.<br>• Dechreuodd diweddariadau'r tywydd ymddangos ar wefan y Brifysgol yn 2018 ac mae'r Brifysgol yn honni na fu unrhyw hysbysiadau o'r fath cyn 2018, oedd yn datgan bod y gerddi wedi cau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yn ôl y Brifysgol, gallai unrhyw aelod o'r cyhoedd oedd eisiau pasio drwy'r ardd ar hyd llwybr yr arfordir neu ar y brif ffordd i leoliad arall wneud hynny. Roedd y stiwardiaid oedd ar y giatiau tocynnau yn rheoli unrhyw ymholiadau ynghylch mynediad.<br>• Mae yna arwyddion yn bresennol yn dangos bod mynediad wedi'i gyfyngu; fodd bynnag, mae'r Brifysgol wedi egluro bod yr arwyddion hyn ond er mwyn atal cerbydau ac nid defnyddwyr ar droed.<br>• Gweithredwyd ar yr arwyddion ynghylch mynediad i gerbydau ar gais eiddo cymydog lle roedd llawer o draffig yn croesi tir preifat.<br>• Mae'r Brifysgol wedi egluro eu bod wedi gosod arwyddion i atal mynediad i gerbydau ac fe wnaethant gynnwys dau lun gyda'r datganiad hwn. Cafodd yr arwyddion hyn eu gosod i sicrhau nad oedd unrhyw draffig cerbydau yn croesi dros y bont reilffordd.<br>• Nid oes ganddynt unrhyw gofnodion dogfennol i gadarnhau pa bryd y sylwodd y brifysgol gyntaf fod pobl yn defnyddio'r llwybr sy'n cael ei hawlio drwy'r Ardd Fotaneg a thros y bont reilffordd. Mae aelodau o staff cyfredol yn gallu cofio pobl yn cerdded y ffordd honno e.e. gyda'u cŵn, ond ni allant fod yn sicr ynghylch dyddiadau.<br>• Mae rhai aelodau o staff sydd wedi bod yn gweithio i'r Brifysgol am dros 25 mlynedd ac mae rhai'n gallu cofio mynd a dod o dir y brifysgol drwy Neuadd Treborth mor bell yn ôl â 1992.<br>• Mae aelod o staff cyfredol yn cofio staff diogelwch y Brifysgol yn cael mynediad i/neu adael tir y brifysgol gyda'r fan ddiogelwch drwy Neuadd Treborth mor bell yn ôl â 1992.<br>• Gosodwyd rhybuddion o wyntoedd cryfion tu allan i'r tai gwydr.<br>• Gosodwyd arwyddion diogelwch ar y brif giât oedd yn dangos rhybudd o wynt cryf i ymwelwyr.<br>• Cyfeiriwyd at yr unig giatiau wedi'u cloi fel y giât fynediad ger y Lodge. Nid yw'r giât wedi cael ei chloi oherwydd tywydd garw.<br>• Ers ei sefydlu yn 1960, mae gerddi a choetiroedd tu allan i’r Ardd Fotaneg wastad wedi bod yn hygyrch i'r cyhoedd.<br>• Mae'r Ardd Fotaneg ar gau i gerbydau o 11pm. Gall cerddwyr gael mynediad 24 awr y dydd.<br>• Atododd Brifysgol Bangor drawsgludiad o 1960.<br>• Agorodd y trac athletau yn 1966. Cadarnhaodd y brifysgol y gallai pobl gyrraedd y cae lle mae'r trac athletau cyn iddo gael ei ddatblygu fel trac athletau. Mae'r trac athletau yn safle a reolir sydd ar agor 0700-2200. Mae arwyddion yn hysbysebu mai dim ond ar ôl gwneud archeb y dylid defnyddio'r safle. |
| Adran Addysg | Cyngor Gwynedd | • Casgliad o 34 o ffeiliau PDF sy'n cynnwys dogfennau hanesyddol yn amrywio o, Gweithredoedd wedi Ailwerthu, dogfennau sy'n ymwneud â datblygu'r Llwybr Beicio |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cenedlaethol, Pecyn Cefndir Ysgol Coed Menai, a dogfennau eraill. Rhoddwyd y rhain i'r Uned Hawliau Tramwy i'w gweld ac nid oeddent yn rhan o unrhyw ddatganiad ysgrifenedig. Mae'r ffeiliau hyn ar gael ar gais. |
| **Ymgynghoriad Llwybr B - C** | | |
| Andreas Huws | Cyn Brifathro | • Mae Mr Huws yn dweud bod y cyhoedd wedi defnyddio (cerdded a cerbydau) y llwybr A -B – C yn ddi-ffwdan ag heb unrhyw fath o heriau am dros 20 mlynedd a mwy, nes yn ddiweddar<br>• Dywedodd Mr Huws, nid oedd unrhyw anghydfod neu gwrthwynebiad i'r drefn yma am flynyddoedd, nes yn ddiweddar.<br>Mae Mr Huws hefyd yn mynd ymlaen i ddweud-<br>• Mae'r llwybrau dan sylw yn derbyn defnydd cyson ac ymarferol gan drigolion cyfagos, cerddwyr, Clwb Pel Droed Penrhosgarnedd, defnyddywr adnoddau Prifysgol Bangor ayyb. Mae rhwystrau megis giatiau wedi'i gloi, arwyddion (e.e. 'patrolling guard dogs') i'w weld ar y llwybrau bellach. Mae traddodiad hanner canrif ag arferion dyddiol (& cymdeithasol) wedi'i effeithio'n negyddol oherwydd y rhwystrau (h.y. Mae'n effeithio'n negyddol ar safon byw trigolion lleol)<br>• Mae'n amddifadu'r gymdeithas ehangach o fedru mwynhau cerdded llwybrau ble roedd hawl i wneud hynny wedi'i ystyried i fod yn un naturiol, gyda chonsensws cymdeithasol cryf i gefnogi hyn. |
| Adran Addysg | Cyngor Gwynedd | • Mae ymateb gan Gwern Ap Rhisiarts, Pennaeth yr Adran Addysg, yn nodi, o'i brofiad o weithio yn yr ysgol, nad yw'n siŵr a yw pobl wedi bod yn cychwyn y llwybr o gyn belled â phwynt C. Fodd bynnag, mae'n cofio y byddai plant ysgol yn cerdded tuag at Bont Bortheuthwy o bryd i'w gilydd gan y byddai hwn yn llwybr y byddent yn ei ddefnyddio i osgoi'r traffig. |
| James Margetson | 5 Tŷ Ysgol | • Mae Mr James Margetson wedi cynhyrchu adroddiad fel ymateb i'r ymgynghoriad. Edrychwch ar atodiad rhif 10 i weld yr adroddiad. |
| Mark a Susan Margetson | Neuadd Treborth | • Mae Mr a Mrs Margetson wedi cynhyrchu llythyr i ddatgan eu gwrthwynebiadau. Gellir gweld y llythyr hwn yn atodiad rhif 11. |
| Adran Eiddo | Cyngor Gwynedd | • Nid yw'r Adran Eiddo yn ymwybodol o unrhyw gamau a gymerwyd i gyfyngu ar fynediad cyhoeddus rhwng pwyntiau B a C. |
| Prifysgol Bangor | Perchnogion Gerddi Botaneg Treborth | • Mae ymateb gan y Brifysgol yn nodi nad ydynt wedi cymryd unrhyw gamau i atal a/neu atal y cyhoedd rhag cerdded y llwybr sy'n rhedeg o B i C ar y map, ar dir sy'n eiddo i'r Brifysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| Mr Thomas Gribben | 3 Tŷ Ysgol Treborth | • Mae Mr Gribben yn credu bod mynediad cyhoeddus wedi bod ar y ffordd drwy Barc Busnes Treborth erioed ac mae'n datgan y byddai angen mynediad ar bobl sy'n gweithio yn y parc busnes i gyrraedd eu hunedau. Byddai hyn yn angenrheidiol iddynt weithredu.<br>• Mae Mr Gribben hefyd wedi siarad â Mr Lennard Jones, sy'n datgan nad oes erioed wedi bod rhwystrau na chyfyngiadau drwy Barc Busnes Treborth. Mae Mr Jones wedi byw gerllaw Parc Busnes Treborth ers 1946.<br>• Mewn gohebiaeth rhwng Mr Gribben a Nigel Brown, lle mae Mr Brown yn datgan bod y ffordd sy'n arwain o ben y Bont Grog i Treborth Lodge wedi bod ar agor yn rhydd i gerddwyr a cherbydau ers o leiaf 1973 pan ddefnyddiodd hi gyntaf i ymweld â Gardd Fotaneg Treborth ac wedi hynny drwy gydol ei gyfnod fel Curadur, 1976-2015.<br>• Mewn gohebiaeth rhwng Mr Gribben a Mr J B Webster, mae Mr Webster yn datgan bod Websters wedi bod yn masnachu yn ystâd ddiwydiannol Treborth ers 1998. Yn yr amser hwnnw, mae hawl tramwy wedi bod i'n cwsmeriaid ddod a mynd mor rhydd ag y dymunant. Nid atynt yn unig y mae cwsmeriaid yn dod, ond hefyd i fynd i'r gerddi botanegol, y cyfleusterau chwaraeon ac i gael mynediad at lwybr yr arfordir. |




**Treborth, Bangor, LL57 2RX. Cyf. Grid / Grid Ref - SH5570**

0 55 110 220 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000821460
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000821460